# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 30.01.2024

*Presennol: Meredydd Williams, Eirian Hoyle,Lynda Masarelli, Heulwen Parry, Elfed Roberts, Erwyn Jones,Gareth Jones*

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. HP. EJ

2a. Datgan Diddordeb – Gweler pwynt 6.65a

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.509 Gellilydan (Bron Gelli) / Cae Cyrbau – ymateb wedi dderbyn gan Michael Evans,

*i ymateb eich e-bost, nid oes unrhyw waith wedi'i gynllunio i newid y cyrbau a wneir fel rhan o adnewyddu'r wal.*

3.510 Cae Chwarae Gellilydan – – Cyfarfod safle 30/01/24 - yn bresennol, Luca Woodcock o ADRA, Bryn Hughes o Cyngor Gwynedd, Meredydd Williams ac Heulwen Parry o'r Cyngor Cymuned. Cyngor Gwynedd i anfon dogfennau ymlaen i gadarnhau mae Cyngor Cymuned Maentwrog sydd yn gyfrifol am y cae chwarae.

3.511 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – Elfed Roberts i ail-drefnu cyfarfod gyda Bryn Hughes ac Amanda Murray.

3.512 National Grid: MW am anfon gwybodaeth ymlaen at Dwynwen Williams.

3.513 Parcio Gellilydan: PC Elliw Roberts am fonitro'r sefyllfa.

3.514 Bryn Arms, Gellilydan / Tomen y Mûr - Yn dilyn arwyniad gan Un Llais mae Datgan Diddordeb yn gyfraith. Cadarnhawyd Meredydd Williams drwy ddarllen adran o'r Côd Ymd-dygiad.

3.515 Bryn Arms - Yn dilyn cyfarfod gyda Rhydian Roberts, Clerc i ymateb a gofyn os ydynt am dynnu sylw i'r Parc am y gwaith di-awdurdod sydd wedi cymeryd lle yno.

3.516 Gofeb – Iechyd a Diogelwch – Megan o'r Dref Werdd wedi cadarnhau dyddiadau ar gyfer dechrau y gwaith, penderfynwyd gosod ffens yn y cefn gyda tapiau a conau fel mesur dros dro tra bod y gwaith yn cael ei wneud yno.

3.517 Dref Werdd – ebost wedi ei dderbyn gan Megan gyda poster i hyrwyddo'r wythnos gwaith i ddatblygu'r ardd gymunedol yng Ngellilydan.

3.518 Neuadd y Pentref - Ynni Twrog mewn cysylltiad a'r Neuadd, gwybodaeth i ddilyn

3.519 Plas Tan y Bwlch – ymateb wedi dderbyn gan Emyr Williams - *Mae'r cyngor a rhoddwyd yn Medi llynedd am Blas Tan Y bwlch yn gywir. Bydd aelodau'r Awdurdod yn adolygu cynllun business a rhesymeg o'r Awdurdod yn rheoli Plas Tan Y Bwlch yn y wythnosau nesaf gyda'r bwriad i ddod i gasgliad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol*

D M. Williams
12-3-2024



CamScanner

*bresennol. Bydd sawl opsiwn yn cael ei ystyried. Ni allaf gynnig fwy o arweiniad i chi ar hyn o bryd hyd fydd aelodau'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth i'r holl faterion sydd ynghlwm a rhedeg Plas Tan y Bwlch.*

3.520 Tomen y Mur – MW I anfon adroddiad ymlaen erbyn y cyfarfod nesaf.

3.521 Rheilffordd Maentwrog – Lein yn plwyf Maentwrog – cadw ymlaen nes bod ymateb wedi dderbyn gan Liz Saville-Roberts.

3.522– Safleoedd Bysiau Maentwrog – Trefnu cyfarfod safle gyda Rhian Wyn Williams ac Elfed Roberts.

4. Materion i'w trafod ar y pryd

4.214 Archwiliad – yn dilyn yr adroddiad a dderbyniwyd gan yr Arwchwilydd Allanol, clerc i drafftio llythyr mewn ymateb gyda chopi i Mabon Ap Gwynfor, Rebecca Evans ac Un-Llais.

4.215 Bysus Ysgol yn hwyr yn codi'r plant – LM wedi rhoi cwyn i mewn at sylw Llinos Williams, LM i anfon gwybodaeth ymlaen i'r Clerc.

4.216 Parcio Maentwrog – Ceir yn parcio wrth yn hen doiledau – penderfynwyd cadw golwg ar y sefyllfa.

4.217 Coed y Brenin – Cyfarfod Cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y 1af o Chwefror, LM am gynreichioli y Cyngor Cymuned.

<u>5. Ariannol</u>

5.144 Cyfrif Cadw: £221.77

5.145 Cyfrif Cyfredol: £3082.76

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.146 Gwe Cambrian: £119.99

5.147 Clerc: Taliad 6 mis - Cyflog - £480.00 Costau: £140.00 HMRC: £119.80

5.148 Un Llais: £127.00

5.149 Praesept: Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd godi y Praesept 3%.

<u>6. Cynllunio</u>

6.64 NP5/73/439 Tir ger Llech y Cwm - Codi annedd menter wledig, creu mynedfa newydd i gerbydau, a gosod tanc septig

6.65 a) GJ yn datgan diddordeb ac yn gadael yr ystafell

Dim gwrthwynebiad i'r cais. Clerc i ofyn os oes cymal ynghlwm a thŷ amaethyddol.

<u>7. Gohebiaeth</u>

234 Dawns I bawb

235 Prosiect Coed Ywen

236 Ffedereiddio Ysgolion

D. M. Williams
12 - 3 - 2024



CamScanner

237 Angela Swann / Guy Howland Jackson Memorial Trust

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion.

9. Mynwent Dwyryd

9.25 Cyfrif y Fywent: £15544.52

9.26 Mynwent Dwyryd – Safle parcio - ymateb wedi ei dderbyn gan Mr Williams, awgrymwyd gwneud cais neu cais am 'pre planning advice' gan yr adran gynllunio

9.27 Snowdonia Natural Slate – Ymholiad gyda maint carreg - MW wedi cysylltu a Karen.

9.28 Mapio Digidol – gwybodaeth o gwmniau sydd yn gwnedu y gwaith yma wedi ei hafnon ymlaen at MW.

9.29 Ail-gylchu yn y Fynwent - cyfarfod safle i'w drefnu.

10, Dyddiad Cyfarfod

12fed o Fawrth, 6.30 Neuadd y Pentref, Gellilydan.

D M. Williams
12-3-2024



CamScanner